WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Medi 2018

# Taliadau Grant i Awyrofod Eryri

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 18 Awst 2018, pan ofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â Thaliadau Grant i Awyrofod Eryri.

Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys eich cwestiwn isod ac wedi amlinellu ein hymateb cyfatebol.

**‘A oes modd i chi ymhelaethu ar y datganiad "darparwyd yr arian at ddibenion lle nad oedd creu swyddi yn angenrheidiol i fodloni'r amodau ariannu” yn ogystal â manylion am y symiau a roddwyd a'r cwmnïau a dderbyniodd y grantiau?’**

Rydym yn dal peth gwybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn ac rwyf wedi nodi hon isod. Daw o wybodaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017 ac mae’n bosib na fydd, o ganlyniad, yn dangos y sefyllfa ddiweddaraf.

Yn ystod 2014/15, gwnaed cynnig gwerth £593,475 i Ystadau Maes Awyr Llanbedr ar gyfer gwelliannau seilwaith cyfalaf ym Maes Awyr Llanbedr mewn cysylltiad â datblygu strategaeth Cerbydau Awyr Di-griw (UAV) i Gymru. Nid oedd amodau'r grant yn cynnwys unrhyw swyddi ond amod eu bod yn buddsoddi cyfanswm o £1,318,475 mewn seilwaith ar y safle. Hyd yn hyn, mae pedwar hawliad wedi'u gwneud a'u talu. Mae'r hawliad olaf ar gyfer £79,775 yn ddyladwy a heb ei dalu hyd yn hyn.

Yn ystod 2014/25, gwnaed cynnig gwerth £118,600 i QinetiQ hefyd yn erbyn gwariant refeniw sy'n gysylltiedig â sefydlu gallu gweithredol cychwynnol. Nid oedd amodau'r grant yn cynnwys unrhyw swyddi ond amod eu bod yn buddsoddi cyfanswm o £237,200 yng nghostau'r refeniw. Talwyd yr hawliad ar gyfer £118,600 ym mis Awst 2015.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau o ran sut rwyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth